



Gwranddo ar bobl 50 oed ac yn hŷn

Os oes angen cymorth arnoch i gwblhau'r arolwg hwn neu os hoffech dderbyn copi mewn fformat arall, rhowch wybod i ni yn ageingwell@abertawe.gov.uk (<mailto:ageingwell@abertawe.gov.uk>) neu ffoniwch Rhys Thomas, Swyddog Partneriaethau ac Ymglymiad Pobl Hŷn ar 07977 346177

Mae Cyngor Abertawe'n ymrwymedig i wrando ar bobl 50 oed ac yn hŷn. Mae gwreiddio hawliau dynol fel rhan o ymrwymiad y cyngor i Ddatganiad Dulyn yn gofyn am ymagwedd cyngor cyfan tuag at gynnwys a chyfranogaeth. Oherwydd y pandemig, bu'n rhaid rhoi ystyriaeth i sut a ble rydym yn ymgysylltu â phobl yn y cyfnod newydd a digynsail hwn o weithio.

Er mwyn gwneud hyn yn iawn, mae angen eich help arnom i gydgyhyrchu dulliau sy'n addas at y diben ac sy'n cynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt mewn ffyrdd ystyrlon ac o ansawdd uchel. Bwriad yr arolwg hwn yw gofyn cwestiynau a fydd yn ein helpu i wneud hyn. Os nad ydych yn cytuno, neu os ydych yn credu ein bod wedi colli rhywbeth, rhowch wybod i ni. Mae'r pethau sydd gennych i'w ddweud yn bwysig iawn.

Mae angen cwblhau'r arolwg hwn erbyn **17 Medi 2021**.

Ar ôl i ni ddarllen pob ymateb, byddwn yn cynhyrchu adroddiad ymgynghori a rennir ar wefan y cyngor a thrwy rwydweithiau, grwpiau a fforymau cymunedol, i roi gwybod i chi bod y Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda wedi gwranddo ar yr hyn rydych wedi'i ddweud ac os ydym wedi gallu gwneud newidiadau neu beidio.

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio wrth i ni arfer ein hawdurdod swyddogol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddibenion eraill. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw trydydd partibai fod y gyfraith yn gofyn neu'n caniatáu i ni wneud hynny.

Mae cyfraith diogeludata'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data yn ôl yr angen i gyflawni

tasg gyhoeddus. Am fwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel testundata, gweler ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.

Cyfranogiad

Ystyr cyfranogaeth yw sicrhau bod trefniadau o ansawdd uchel ar waith i sicrhau bod barn pobl yn cael ei chlywed mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Fel cyngor, i sicrhau bod cyfranogaeth ar y lefel uchaf y gall fod ar draws y sefydliad, rydym yn addo gwneud y canlynol:

- Cynnwys pobl sy'n 50 oed ac yn hŷn yn uniongyrchol wrth ddylunio, monitro a gwerthuso'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn.
- Dysgu am sut y mae sefydliadau eraill yn gwneud hyn, a datblygu cynlluniau sy'n diwallu anghenion pobl 50 oed ac yn hŷn yn Abertawe.
- Datblygu targedau clir i wrando ar bobl 50 oed ac yn hŷn mewn grwpiau ar y cyrion.
- Cynnwys pobl 50 oed ac yn hŷn wrth recriwtio staff sydd â chyfrifoldebau sy'n effeithio arnynt.
- Mabwysiadu'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd i sicrhau bod pobl 50 oed ac yn hŷn yn cael profiadau o safon pan fyddant yn cyfranogi.

1. Ydych chi'n cytuno â'r addewid arfaethedig?

| | Cytuno'n gryf | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|--|-----------------------|-----------------------|-----------------------|-----------------------|-----------------------|
| Cynnwys pobl sy'n 50 oed ac yn hŷn yn uniongyrchol wrth ddylunio, monitro a gwerthuso'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn. | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> |
| Dysgu am sut y mae sefydliadau eraill yn gwneud hyn, a datblygu cynlluniau sy'n diwallu anghenion pobl 50 oed ac yn hŷn yn Abertawe. | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> |
| Datblygu targedau clir i wrando ar bobl 50 oed ac yn hŷn mewn grwpiau ar y cyrion. | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> |
| Cynnwys pobl 50 oed ac yn hŷn wrth recriwtio staff sydd â chyfrifoldebau sy'n effeithio arnynt. | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> |
| Mabwysiadu'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd i sicrhau bod pobl 50 oed ac yn hŷn yn cael profiadau o safon pan fyddant yn cyfranogi. | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> | <input type="radio"/> |

2. Os ydych chi'n anghytuno, dywedwch pam

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the user to provide an answer to the question above.

3. Ydych chi'n meddwl y dylid ychwanegu neu dynnu unrhyw beth o'r addewid hwn?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the user to provide an answer to the question above.

Llunio mecanweithiau i wrando ar bobl 50+ oed

Hoffem wybod mwy am arfer da sydd eisoes yn bodoli a meysydd i'w gwella fel y gallwn gydweithio i ddatblygu dulliau gwrando ar bobl 50 oed ac yn hŷn sy'n ystyrlon, yn gynhwysol ac yn darparu profiadau o ansawdd da.

4. Yn eich barn chi, beth yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o wrando ar bobl 50 oed ac yn hŷn?

(Rhowch groes ger pob un sy'n berthnasol)

- Modelau fforwm â chynrychiolwyr, e.e. fforymau etholedig neu gynghorau lle mae pobl yn cynrychioli eraill
- Modelau agored, e.e. lle mae pobl yn cynrychioli eu hunain ac nid oes angen eu hethol
- Trwy eiriolwyr (rhowch wybod i ni pwy ddylai fod yn eiriolwyr yn eich barn chi)
- Trwy bleidleisiau
- Trwy arolygon
- Trwy gyfryngau cymdeithasol
- Trwy wefan Cyngor Abertawe
- Rhywbeth arall, nodwch beth
-

Other

5. Nodwch enghraifft rydych yn ei hystyried yn arfer da o ran gwranddo ar bobl 50 oed ac yn hŷn.

Gall hyn fod yn strwythur sydd eisoes yn bodoli o fewn eich cymuned/sefydliad neu'n brofiad rydych wedi'i gael lle rydych yn teimlo bod person wir wedi cael cyfle i fynegi ei farn ynghylch penderfyniadau sy'neffeithio arno.



Mecanweithiau i wrando ar yr holl bobl 50+ oed

Mae sicrhau bod dulliau cynhwysol ar waith fel bod yr holl bobl 50 oed ac yn hŷn, yn enwedig y rheini a all fod ar y cyrion fel arfer, yn cael cyfle i gyfranogi yn flaenoriaeth.

6. Yn eich barn chi, beth yw'r rhwystrau sy'n atal pobl 50 oed ac yn hŷn rhag gallu cyfranogi?

7. Yn eich barn chi, beth y mae angen i Gyngor Abertawe ei wneud i sicrhau bod ei ddulliau ar gyfer gwranddo ar bobl 50 oed ac yn hŷn yn gynhwysol ar gyfer pawb?

Gwneud Abertawe'r lle gorau i fyw ynddo

Hoffem wybod eich barn am yr hyn y mae angen ei wella ar gyfer pobl 50 oed ac yn hŷn yn Abertawe.

Nodwch y tair prif flaenoriaeth y dylent fod yn faes ffocws er mwyn gwneud Abertawe'n lle gwell i fyw ynddo ar gyfer pobl 50 oed ac yn hŷn, yn eich barn chi.

8. Blaenoriaeth 1

9. Blaenoriaeth 2

10. Blaenoriaeth 3

11. Mae croeso i chi nodi unrhyw sylwadau ychwanegol yma:

Amdanoch Chi

Er mwyn gwella'n gwasanaethau a sut rydym yn cyflwyno'n gwasanaethau i chi ac ystyried eich holl anghenion, rydym yn gobeithio y byddwch yn ateb y cwestiynau canlynol.

Yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, cedwir unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani yn y cwestiynau canlynol yn hollol gyfrinachol at ddibenion dadansoddi data'n unig. Bydd yr wybodaeth yn ein galluogi i benderfynu a yw ein gwasanaethau yr un mor hygyrch i bawb.

12. Ydych chi'n ...?

- Wryw
- Benyw
- Dewis peidio â dweud

13. Ydych chi o'r un rhyw ag y roeddech chi pan gawsoch eich geni?

- Ydw
- Nac ydw
- Dewis peidio â dweud

14. Bethyw eich dyddiad geni? (dd/mm/yyyy)

15. Beth wy eich tueddfryd rhywiol?

Deurywiol

Hoyw/Lesbiaidd

Heterorywiol/Strêt

Dewis peidio â dweud

Arall (nodwch)

Other

Amdanoch Chi

16. Ydy'ch chi'n ystyried eich hun yn...

(Rhowch groes ger pob un sy'n berthnasol neu nodwch)

- Brydeiniwr
- Cymro/Cymraes
- Sais/Saesnes
- Gwyddel
- Albanwr
- Prydeinig Arall (nodwch)
- Ddim yn Brydeinig (Nodwch isod)
- Ffoadur (Nodwch eich cenedligrwydd presennol/diwethaf isod)
- Ceisiwr lloches (Nodwch eich cenedligrwydd presennol/diwethaf isod)
- Ddim am ddweud
-

Other

17. Beth yw eich grŵp ethnig?

(Rhowch groes mewn un blwch a nodwch os yw'n berthnasol)

- Gwyn** - Prydeinig (fel y'i diffinnir uchod)
- Unrhyw gefndir gwyn arall (Nodwch)
- Cymysg** - Gwyn a Du Caribiaidd
- Cymysg** - Gwyn a Du Affricanaidd
- Cymysg** - Gwyn ac Asiaidd
- Unrhyw gefndir cymysg arall (Nodwch)
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** - Indiaidd
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** - Pacistanaidd
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** - Bangladeshaidd
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** - Tsieineaidd
- Unrhyw gefndir Asiaidd arall (Nodwch)
- Du neu Ddu Prydeinig** - Caribiaidd
- Du neu Ddu Prydeinig** - Affricanaidd
- Unrhyw gefndir Du arall (Nodwch)
- Grŵp Ethnig Arall** - Sipsi neu Deithiwr
- Grŵp Ethnig Arall** - Arab
- Ddim am ddweud
- Arall (Nodwch)
-

Other

Amdanoch Chi

18. Beth yw eich crefydd neu gred/diffyg cred, hydyn oed os nad ydych yn arfer eich crefydd mewn gair a gweithred ar hyn o bryd?
(*Ticiwch un blwch neu nodwch*)

- Dim crefydd/cred
 - Cristion (gan gynnwys Eglwys Lloegr, Catholig, Protestant a phob enwad Cristnogol arall)
 - Bwdhydd
 - Hindŵ
 - Iddew
 - Mwslim
 - Sikh
 - Dewis peidio â dweud
 - Unrhyw grefydd/system gred arall (nodwch)
 -
- Other

19. Ydych chi'n ystyried eich bod yn arfer eich crefydd neu'ch credo mewn gair a gweithred?

- Ydw
- Nac ydw
- Dewis peidio â dweud

20. Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?
(*Rhowch groes ger pob un sy'n berthnasol*)

- Deall Cymraeg llafar
- Siarad Cymraeg
- Darllen Cymraeg
- Ysgrifennu Cymraeg
- Dysgu Cymraeg
- Dim un o'r rhain
- Dewis peidio â dweud

21. Pa ieithoedd rydych chi'n eu defnyddio o ddydd i ddydd?
(*Rhowch groes ger pob un sy'n berthnasol*)

- Saesneg
- Cymraeg
- Iaith Arwyddion Prydain
- Dewis peidio â dweud
- Arall (nodwch)

Other

Amdanoch Chi

22. Oes gennych chi unrhyw salwch, anabledd neu wendid tymor hir?

Defnyddir y term tymor hir ar gyfer unrhyw beth sydd wedi'ch poeni dros gyfnod o amser neu sy'n debygol o effeithio arnoch dros amser. Gellir diffinio hwn hefyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel, "Nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar eich gallu i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd."

- Oes
- Nac oes
- Dewis peidio â dweud

23. Ydy'r salwch neu'r anabledd hwn yn cyfyngu ar eich gweithgareddau pob dydd mewn unrhyw ffordd?

- Ydw
- Nac ydy
- Dewis peidio â dweud

Diolch am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg hwn

Anfonwch eich arolwg gorffenedig i AgeingWell@swansea.gov.uk
